David Rees, 'Y Cynhyrfwr', 1801–69

Gweinidog (A) a golygydd

> Cynhyrfer! Cynhyrfer! Cynhyrfer! yw ein cais atoch,
> gydwladwyr ... tra gallom ddal ysgrifell i ysgrifenu, eiliwn ein cais,
> Cynhyrfer! Cynhyrfer! Cynhyrfer!
>
> *David Rees*

Ganed David Rees ar 14 Tachwedd yn y Gelli-lwyd, plwyf Trelech, Caerfyrddin. Bu farw ei fam pan oedd yn dair oed a symudodd y teulu i fferm Pengraig. Yr unig addysg a gafodd yn ei blentyndod oedd gartref ac yn yr ysgol Sul. Dywedir fod ganddo gof ardderchog ac fe ddysgodd bob gair o Lyfr y Proffwyd Eseia. Pan oedd yn ddeuddeg oed aeth i ffwrdd i ddysgu crefft fel gof ond dychwelodd ar ôl tair blynedd. Gweithiodd ar fferm ei dad am flynyddoedd cyn mynd i'r ysgol yn Hwlffordd ym 1822 gan ei fod yn teimlo galwad i'r weinidogaeth. Ym 1823 treuliodd gyfnod byr yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin ac ysgol baratoi yn y Drenewydd, ac yn y cyfnod hwn fe ddechreuodd bregethu. Derbyniwyd ef i athrofa'r Annibynwyr yn y Drenewydd ym 1825 a thra oedd yn y fan honno daeth yn gyfeillgar iawn â Samuel Roberts, Llanbrynmair.

Wedi'r cyfnod hwn o hyfforddiant fe'i hordeiniwyd yng nghapel Als, Llanelli ar 5–6 Gorffennaf 1829. Tref fechan oedd Llanelli pan gyrhaeddodd ond datblygodd a thyfodd yn sydyn o ganlyniad i'r chwyldro diwydiannol. Cynyddodd cynulleidfa capel Als i'r fath raddau o dan ei weinidogaeth fel y bu rhaid sefydlu eglwysi eraill, sef eglwys Saesneg y Parc, capel Siloa a chapel y Bryn.

Yr oedd yn arweinydd wrth reddf ac amlygodd y nodweddion hynny'n gynnar yn ei fywyd. Yn fuan prifiodd i fod yn bregethwr a darlithydd o fri ac yn ddyn oedd yn ymwneud â materion cymdeithasol a chrefyddol yn lleol a chenedlaethol. Rhaid cofio fod Cymru'n ferw gwyllt o anfodlonrwydd yn y cyfnod hwn,

a'r werin yn anhapus, gyda Merched Beca'n chwalu'r clwydi a'r Siartwyr yn codi'r faner goch mewn anniddigrwydd. Cydymdeimlai David Rees yn fawr â'r bobl hyn ond credai mai addysg ac nid gwrthryfel oedd y ffordd ymlaen.

Digwyddiad arwyddocaol iawn oedd ei benodiad yn olygydd cyntaf *Y Diwygiwr* ym 1835 a chyflawnodd y gwaith hwnnw am ddeng mlynedd ar ugain. Ysgrifennodd J. Dyfnallt Owen amdano gan ddweud:

> Meddai ar bersonoliaeth a doniau un wedi ei eni'n arweinydd, digymrodedd ei argyhoeddiadau, a diysgog ei egwyddorion.Yr oedd yn ddinesydd goleuedig a doeth ... Gan ei fod wrth natur yn wleidydd a diwygiwr cymdeithasol, amgylchiad arbennig yn hanes Annibyniaeth ac Ymneilltuaeth yn ne Cymru oedd ei benodi'n olygydd cyntaf *Y Diwygiwr* ... creodd farn gyhoeddus newydd ... yr oedd yn bensaer ac adeiladydd y ffydd Ymneilltuol.

Ceisiodd oleuo'r darllenwyr trwy gyfrwng *Y Diwygiwr* a safodd yn gadarn dros egwyddorion Ymneilltuaeth gan ymateb i ymosodiadau a wnaed arnynt. Un o'r rhai a gâi bleser mawr wrth ymosod ar yr Ymneilltuwyr yn y cyfnod hwnnw oedd David Owen, neu Brutus fel y'i galwai ei hun ar ddalennau *Yr Haul*. Ond safai David Rees yn gadarn gan greu meddylfryd a chonsensws Ymneilltuol a defnyddio'r *Diwygiwr* fel cyfrwng effeithiol. Bu hefyd am gyfnod yn olygydd *Tywysydd y Plant*.

Dioddefodd golledion trymion yn ystod ei oes. Boddodd dau o'i feibion mewn damwain ar yr un diwrnod, a bu farw ei wraig a'i ferch yn annhymig. Er hynny gweithiodd yn ddiflino yn erbyn pob drwg ac er budd ei Arglwydd a'i gyd-ddynion. Arwydd o'i haelioni oedd iddo fynnu rhoi'r dysteb o £700 a dderbyniodd gan bobl Llanelli fel arwydd o'u diolch am ei waith i helpu dynion ieuanc oedd yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth. Bu farw 31 Mawrth 1869.